# Cyngor Cymuned Llanidan

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth, 26 Fedi, 2017.

**Presennol:** Mrs Lynn Hervouet (Cadeirydd) **LH**, Mr Mark E. Evans **MEE**, Mr H. Eifion Jones **HEJ**, Mr Arthur Thomas **AT**, Ms Sandra Thomas **ST**, Cynghorydd Mr Eric W. Jones (CSYM) **EWJ**, Mr Steven A. Jones **SAJ**, Mr Meic E. Jones (Clerc) **MEJ**.

**Ymwelwyr Presennol:** Mark Sobczack **MS**, Dylan Herbert **DH**, cynrychiolwyr Scottish Power Energy Network (SPEN).

**Ymddiheuriadau:** Mr Chris Davies (Is-gadeirydd) **CD**, Mr Cenwyn Williams **CW**, Cynghorydd Mr Dafydd Roberts (CSYM) **DR**.

1. **Croeso**
   Cadeiriwyd y cyfarfod gan Mrs Lynn Hervouet **LH** ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol. Diolchwyd **LH** i Mark Sobczack a Dylan Herbert cynrychiolwyr SPEN am ymuno a'r cyfarfod i drafod materion atgyfnerthu rhwydwaith dosbarthu trydan yn yr ardal.

2. **SPEN - Atgyfnerthu Rhwydwaith Dosbarthu Trydan**
   Cyflwynwyd **MS** a **MH** eu hunain gyda'u cefndir a rheswm eu presenoldeb. Dangoswyd trosolwg o'r prosiect i fuddsoddi 13m i gryfhau seilwaith trydan ar draws Ynys Môn. Cyflwynwyd cais cynllunio Adran 37 i CSYM ym mis Mehefin 2017 a disgwyliwyd y bydd DBEIS yn adolygu y cais ym mis Tachwedd 2017. Llinell uwchben polion pren 33kV sydd yn cael ei gynnig yn y dalgylch.
   Gofynnwyd **ST** os bydd llwybr y polion newydd yn amharu ar y golygfeydd, eglurodd **DH** bod ymchwil wedi ei gwblhau a bydd llwybr y polion newydd mewn pantiau ar hyd y ffordd. Diolchwyd **LH** i **MS** a **MH** am y cyflwyniad.

3. **Datgan Diddordeb**
   Pwynt 5.0.9 - Mr Mark E. Evans - Gwaith Cynnal a Chadw Llwybrau Cyhoeddus.

4. **Cofnodion Cyfarfodydd 25/07/2017 a 22/08/2017**
   Cyfarfod 25/07/2017 - Derbyniwyd y cofnodion yn gywir, Cynigwyd gan **AT**, Eiliwyd gan **ST**.
   Cyfarfod 22/08/2017 - Derbyniwyd y cofnodion yn gywir, Cynigwyd gan **HEJ**, Eiliwyd gan **AT**.

**5. Materion yn codi**

5.0.1 **Archwiliad Blynyddol Cyfrifon y Cyngor 2016/17 gan BDO**
Y ddau brif bwyntiau a godwyd yn yr adroddiad oedd (1) mae angen monitro'r gyllideb pob chwarter, (2) mae angen sortio bod gwefan y cyngor cymuned yn rhedeg ac wedi ei diweddaru. **MEJ** i yrru'r ffurflen flynyddol yn ôl i BDO gyda'r datganiad cyn dyddiad cau 30/09/2017.

5.0.2 **Swydd y Clerc - Arwyddo Contract Cyflogaeth**
**SAJ** a **LH** wedi arwyddo dau gopi.

5.0.3 **Mandad Banc - Trefniadau Bancio Newydd?**
**SAJ** i ymchwilio gyda HSBC y posibilrwydd o fancio ar-lein ar gyfer y Cyngor Cymuned a'r Ganolfan.

5.0.4 **Cynrychiolaeth ar Gyrff Llywodraethwyr Ysgol Brynsiencyn**
**MEE** yn cadarnhau ei fod yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar y Corff Llywodraethol.

5.0.5 **Cae Chwarae - 'Ellis Griffiths Memorial Playing Fields' - "Trustees"**
Cadarnhau bod pob aelod pwyllgor Cyngor Cymuned Llanidan yn cael eu nodi fel ymddiriedolwyr.

5.0.6 **Ffurflenni Cofrestr Buddiannau - Diweddaru**
**ST, MEE, CD a CW** i gwblhau'r ffurflenni a rhoi i SAJ yn cyfarfod mis Hydref.

5.0.7 **Cae Chwarae - Adroddiad gan RoSPA / Asesiad Risg**
Trafodwyd cynnwys yr adroddiad. **MEE** i drefnu cyfarfod gyda G. L. Jones i gael archwiliad arall ar y ffrâm ddringo, polyn dyn tan a llawr arllwys (gwarant?).

5.0.8 **Diffribilydd - Cais am grant 'Tesco - Bags of Help'**
Diffribilydd, blwch cadw a weirio wedi cwblhau. Cyfanswm y gost i'w gadarnhau pan fydd bil weirio newydd wedi'i dderbyn. Wedyn gallwn gadarnhau cyfanswm cyfraniad bydd angen gan y Cyngor Cymuned ar ôl cael ad-daliad TAW.

5.0.9 **Llwybr Cyhoeddus Rhif 1, Brynsiencyn - (Ail Doriad?)**
Cadarnhad bod y toriad cyntaf wedi'i gwblhau. Ail doriad llwybr rhif 1 heb ei gwblhau, **AT** i edrych sut mae'r tyfiant erbyn cyfarfod mis Hydref. Anfoneb angen gan y contractwr unwaith bydd y gwaith wedi cwblhau ar gyfer y taliad diwethaf o £60. **MEE** wedi arwyddo ffurflen 'Datgan Diddordeb'.

5.1.0 **Ceisiadau Cynllunio**
**37C202** - Bryn Gwyn Bach, Brynsiencyn. Newid adeilad allanol i lety gwyliau ynghyd ag ail-osod paced trin carffosiaeth newydd. **SAJ** i yrru e-bost i Adran Cynllunio i ddatgan dim gwrthwynebiad.

**37C196D/VAR** - Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (03) o ganiatâd cynllunio rhif 37C196 (ymestyn y cwrtil, codi modurdy ynghyd ag addasu ac ehangu) er mwyn amrywio amod yn fanwl yn ôl cynllun a gyflwynwyd yn Tan y Bryn, Llanedwen.

Oherwydd cyfyngder amser (rheol 21 diwrnod) pasiwyd y cais ymlaen at sylw'r Gadeiryddes ac fe benderfynodd nad oedd ganddi ddim sylw i gynnig.

**37C198** - Caniatâd
**37C199** - Caniatâd
**37C197B** - Caniatâd
**37C200** - Caniatâd
**37C42A** - Caniatâd
**37C73E/MIN** - Caniatâd
**37C84G** - Dim angen caniatâd

5.1.1 **14 Ystâd Bryn y Gelli - Coeden bron a chyffwrdd y wifren trydan**
Monitro'r sefyllfa.

5.1.2 **Ystâd Bryn y Gelli - Lampau Goleuo Stryd Ddiffygiol**
(1) Llwybr Cae Chwarae - **MEE** wedi newid y clo i deip cyfuniad rhif, **SAJ** i hysbysu Peiriannydd Mr Môn E. Williams (CSYM) o'r newid.
(2) Cymdeithas Tai Clwyd Alun am edrych ar y lampau a gyrru contractwr allan i'w trwsio. **SAJ** i ddilyn i fynnu.

5.1.3 **Adroddiad gan Gynghorydd Lleol (CSYM)**
Cynghorydd **EWJ** yn dweud bod arddangosfa yn babell (CSYM) yn Sioe Môn wedi bod yn llwyddiannus. Dywedodd **EWJ** bod grantiau ar gyfer sgipiau cymunedol ar gael gan adran Tai, **EWJ** i holi fwy i (CSYM) am y grant. Diolchwyd i **EWJ** am y wybodaeth.

5.1.4 **Age Cymru Gwynedd a Môn**
Eleri Jones yn dod i gyfarfod ar Hydref 31ain i gyflwyno ei hadroddiad cyllido blynyddol 2016/17 am gronfa JTR.

5.1.5 **Brynsiencyn Children's Carnival Fund**
Cais gan Angharad Roberts am gyfraniad ariannol i gynnal disgo Calan Gaeaf a Nadolig wedi cytuno. Un daliad o £250 gan y Cyngor Cymuned wedi cadarnhau. Taliad drwy siec nes bydd trefniadau bancio newydd wedi cychwyn. Cynigwyd gan **HEJ**, Eiliwyd gan **ST**.

5.1.6 **Un Llais Cymru - Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn**
Cynhelir y cyfarfod ar Hydref y 5ed yn Neuadd Sir, Llangefni. Nid yw **LH** neu **SAJ** yn gallu mynychu'r cyfarfod y tro hwn.

5.1.7 **Archwilydd Mewnol yn Ymddeol**
Mr John Roberts yn ymddeol, bydd rhaid chwilio am archwilydd mewnol newydd lleol.

5.1.8 **Polisi Iaith Gymraeg**
Diolchwyd **MEJ** am y gwaith, **LH** wedi ei arwyddo.

5.1.9 **Adran Briffyrdd - Gordyfiant dros y palmentydd**
Rhwng Penygroes a Bryn Llywelyn ar ochr yr A4080 (wrth ddod i mewn i Frynsiencyn o gyfeiriad Llanfairpwll). Gwaith wedi'i gwblhau.

5.2.0 **Archifdy - Dogfennau i'w cadw?**
Llyfr Cofnodion - Ionawr 25ain,2005 hyd at Dachwedd 30ain, 2010
Llyfrau Ariannol (`*Receipt & Payment Books*`) - 1968/69 - 1987/1988, 1988 /89 - 1999/2000, 2000/2001 - 2015/16.
Llyfr Clawr Caled `*Parish Councillors Declarations*` - Ebrill 18fed, 1931 - Ebrill 18fed, 1974 (Bylchau rhwng 1942 a 1952, 1958 a 1964, 1964 a 1974)
Llyfr Clawr Caled `*Declaration of Acceptance of Office*` - 1974 i 1983
Ffeil yn cynnwys `*Financial statements*` - *1938/39,1940/41,1941/42, 1942/43,1943/44, 1944/45,1945/46 + 2* gopi*, 1946/47, 1947/48, 1948/49,1949/50, 1950/51, 1951/52, 1952/53, 1953/54, 1954/55, 1955/56,1956/57,1957/58, 1958/59,1959/60 + 1* copi*, 1960/61, 1961/61, 1962/63. Hefyd 12 copi o `Notice of Audit / certificate of Publication of Notice of Audit*` heb eu llenwi.
Ffurflenni Blynyddol 2001/02, 2002/03, 2003/04 (copi), 2004/05,2005/06, 2006/07, 2007/08, 2008/09, 2009/10, 2010/11, 2011/12, 2012/13, 2013/14, 2014/15
Yr uchod i gyd yn cael eu rhoi i'r Archifdy gan **MEJ.**

Cynigwyd gan **AT**, Eiliwyd gan **ST**.

**6. <u>Adroddiad Cyllid</u>**

6.1 **Cyfrifon Cyngor Cymuned - 1af Medi, 2017**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Cyfredol 'Community' (yn cynnwys 1,455.00 ar gyfer talu am y diffribilydd) | |
| | £8,643.96 |
| `BMM Cynilo ` (ar Awst 22ain, 2017) | <u>£4,045.19</u> |
| | £12,689.15 |
| Ar Fedi 30ain, 2017 (Llai cyflog y clerc) | **£12,004.15** |

6.2 **Taliadau Allan**
Derbyn fod y Clerc wedi talu'r biliau canlynol:
**£137.00** - TWE ar gyflog (mis Medi) y Clerc.
**£548.00** - Cyflog (Misoedd Gorffennaf - Medi) y Clerc (PAYE).
Gyda chaniatâd y Gadeiryddes (Gweler tudalen 247 Llyfr Cofnodion).
**£983.88** - Zoll Medical UK - Talu am Ddiffribilydd.
**£598.80** - Pawle & Co. Ltd. - Talu am flwch pwrpasol i gadw'r Diffribilydd ar y wal.

6.2 **Taliadau i Mewn**
**£2,881.67** - Ail praesept am 2017/18 ar 23/8/17.
**£1,455.00** - Taliad gan Bwyllgor Y Ganolfan Brynsiencyn tuag at y gost o brynu a gosod y Diffribilydd (yn cynnwys £1k grant gan TESCO).

6.3 **Biliau**
**£215.20** - Anghenion Swyddfa (25/3/17 - 26/9/17)
**£400.00** - 2ail randal o gyfraniad i Gronfa Mynwent Eglwys Llanidan.
**£???.??** - Gwaith weirio'r diffribilydd (anfoneb heb ei dderbyn).

6.4 **Cyfrifon 'Y Ganolfan' - 1af Medi, 2017**

| | |
|---|---|
| Cyfrif 'Community' | **£3,339.48** |
| Cyfrif 'BMM' (Ebrill 10fed, 2017) | **£254.91** |

Cynigwyd bod cyfrifon uchod yn gywir gan **HEJ**, Eiliwyd gan **ST**.

**7. <u>Gohebiaethau a dderbyniwyd er gwybodaeth</u>**

(1) Clerks and Councils Direct - Rhifyn Medi 2017
(2) Swyddog Canlyniadau - Poster `Amser Cofrestru` i osod yn Y Ganolfan
(3) The Clerk - Rhifyn Medi 2017

**8. <u>Unrhyw Fater Arall</u>**

8.1 **Adolygiad y Pwyllgor Safonau**
Dosbarthwyd copi electronig / papur i bob aelod cyn y cyfarfod. Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad ac wedi trafod y prif bwyntiau fel pwysigrwydd fod aelodau yn cydymffurfio a'r cod ymddygiad. Copi o gofnodion cyfarfod Medi 2017 angen ei yrru i'r Pwyllgor Safonau.

8.2 **Clwb Pêl Droed Bro Rhosyr**
Dywedodd **MEE** bod timau o dan 6, 9 a 11 wedi ei sefydlu a bod cymorth arian tuag at wisgoedd gan fusnesau lleol ac ychydig o offer yn unig. Dywedodd **MEE** bod llythyr yn gofyn am gymorth ariannol tuag at brynu offer i'r clwb ar ei ffordd.

8.3 **Problem sbwriel a baw cwn - Kingdom (CSYM)**
**HEJ** cynnig rhoi gwahoddiad a chaniatâd i Kingdom (CSYM) ar dir y Cyngor Cymuned er mwyn trio sortio'r broblem. **SAJ** i holi Kingdom am eu gwasanaeth.

8.4 **Cae Pêl Droed Maes Chwarae - Rhwydi goliau**
**MEE** i baratoi adroddiad ar gyfer cyflwr rhwydi goliau 'anti-slip'.

8.5 **Stad Bryn Glas - Tomen Gwastraff a Gordyfiant**
**LH** yn pryderu bod eitemau fel dodrefn ayyb yn cael eu lluchio ar y tir sydd yn eiddo i adran Tai (CSYM). **LH** i yrru lluniau i **SAJ** cyn gyrru e-bost i adran Tai (CSYM) i ofyn iddynt ei glirio a chysidro torri'r gordyfiant er mwyn lleihau'r risg o ddigwyddiadau o'r fath ailadrodd.

**9. <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u>**
Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth 31 Hydref, 2017 am 7 o'r gloch.

## Arwyddwyd – Cadeirydd

________________________

## Dyddiad: